# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 16 Ionawr 2024

Amser: 09.02 - 09.15

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS<br>Llyr Gruffydd AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Heledd Fychan, roedd Llyr Gruffydd yn bresennol ar ei rhan.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Busnes yr wythnos hon**

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn:

- ~~Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd (30 munud)~~ *Gohiriwyd tan 23 Ionawr*
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Pwysau'r gaeaf mewn gofal iechyd (45 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.20pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.40pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 23 Ionawr 2024**

- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd (30 munud)

**Dydd Mawrth 30 Ionawr 2024**

- Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio) 2024 (5 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 31 Ionawr 2024**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.17(iii) mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (5 munud)

**Dydd Mercher 7 Chwefror 2024**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer: Janet Finch-Saunders (Aberconwy) (30 munud)

### 3.4 Dadl Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion arfaethedig ar gyfer dadl a chytunwyd i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ar 24 Ionawr:

**Mabon ap Gwynfor**

**NNDM8448**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) bod darparwyr gofal hosbis elusennol yn chwarae rhan hollbwysig wrth ddarparu gofal a chymorth hanfodol i bobl sydd wedi'u heffeithio gan salwch angheuol ledled Cymru;

b) bod y sector hosbis elusennol yn darparu gofal i fwy na 20,000 o bobl bob blwyddyn, gyda'u gwasanaethau yn cefnogi pobl sy'n marw i aros yn eu cartrefi eu hunain a lleihau derbyniadau i'r ysbyty, gan sicrhau canlyniadau gwell i unigolion a'r GIG;

c) bod costau cynyddol o ran ynni a staff, pwysau ar y gweithlu, a galw cynyddol am ofal cymhleth yn fygythiad dirfodol i gynaliadwyedd y sector;

d) bod 90 y cant o hosbisau yn cyllidebu ar gyfer diffyg yn 2023/24 ac yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i gwrdd â'r diffyg; a

e) y bydd y galw a'r angen am ofal lliniarol yn tyfu'n sylweddol wrth i'r boblogaeth heneiddio ac mae mwy o bobl yn byw yn hirach gyda chyflyrau cronig lluosog.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ymrwymo i weithio gyda'r sector i fynd i'r afael â'r heriau cyllido uniongyrchol, gan gynnwys sicrhau cynnig cyflog teg i weithlu hosbisau, sy'n cyfateb i'r cynnydd yn yr Agenda ar gyfer Newid, fel bod cydraddoldeb â chydweithwyr yn y GIG;

b) datblygu ateb ariannu cynaliadwy hirdymor mewn partneriaeth â'r sector, gan gynnwys fformiwla ariannu genedlaethol newydd, cynllun gweithlu, a manyleb gwasanaeth gofal lliniarol a diwedd oes; ac

c) ymestyn adolygiad cyllid gofal diwedd oes Llywodraeth Cymru, y disgwylir iddo ddod i ben ym mis Ionawr 2024, os nad yw hyn yn ymarferol o fewn yr amserlen hon.

## 4 Rhaglen waith weithdrefnol

### 4.1 Papur ar Raglen Waith Weithdrefnol

Nododd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad ar amserlennu arfaethedig ei raglen waith gweithdrefnol, a chytunodd arno.